# SL(5)716 – Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â’r EU) 2021

## Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379).

Oherwydd bod y DU a’r UE wedi dod yn ‘drydydd gwledydd’ ar y cyd ar ôl diwedd y cyfnod pontio, bydd angen i fewnforwyr ac allforwyr i’r ddau gyfeiriad gydymffurfio â gwarantau iechyd ychwanegol yng ngofynion y Dystysgrif Iechyd Allforio (EHC) a gwaharddiadau a chyfyngiadau eraill, a nodir yn neddfwriaeth yr UE a deddfwriaeth a ddargedwir y DU.

Diben yr offeryn hwn yw atal dros dro y gofyniad i baratoadau cig a fewnforir i Gymru o sefydliadau sydd wedi’u lleoli yn Aelod-wladwriaethau’r AEE, Ynysoedd Ffaröe, Yr Ynys Werdd neu’r Swistir fod wedi’u rhewi’n ddwfn.

Bydd yr amod hwn, os caiff ei orfodi, yn achosi problemau sylweddol i fewnforwyr cig o’r UE. Mae Llywodraeth Cymru o’r farn bod yr amod hwn yn or-gyfyngol pan fo Cymru ar hyn o bryd yn cysoni â’r UE ar bob rheoliad a safon, ei bod â lefelau bioddiogelwch a statws iechyd anifeiliaid tebyg, a’i bod â’r un rheolaethau ar gyfer cynhyrchu a pharatoi cynhyrchion cig. Os na chymhwysir yr offeryn hwn, ni fyddai mewnforwyr yn gallu mewnforio paratoadau cig ffres o’r UE a gwladwriaethau eraill yn gyfreithiol, a fyddai â goblygiadau negyddol i’r gadwyn cyflenwi bwyd

Mae’r ddarpariaeth hon yn un drosiannol yn unig oherwydd, yn unol â Model Gweithredu Ffiniau Llywodraeth y DU, bydd y DU yn cyflwyno gofyniad i fewnforion cynhyrchion anifeiliaid o’r UE gael Tystysgrifau Iechyd Allforio a’r amodau ynddynt, i gyd-fynd â hwy . Gwneir penderfyniadau ar yr amodau hynny, o fis Ebrill 2021, o fewn trefniadau llywodraethu’r Fframwaith Cyffredin Iechyd a Lles Anifeiliaid.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 5 Ionawr 2021.

Yn benodol, rydym yn nodi'r hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynghylch pam mae'r rheoliadau hyn yn torri'r rheol 21 diwrnod:

> *"Dim ond ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu y daeth y pŵer galluogi ar gyfer datgymhwyso'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau ar baratoadau cig ar gael, gyda Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid a Bwyd Anifeiliaid, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020. Bydd 'bwlch aer' yn bodoli hyd nes y gwneir Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 ac y dônt i rym.*
>
> *Os na ddaw'r offeryn hwn i rym cyn gynted â phosibl, byddai'r 'bwlch aer' hwn yn golygu, yn ystod y cyfnod interim hwn, y byddai'n dechnegol anghyfreithlon mewnforio paratoadau cig wedi'u hoeri i Gymru, a fyddai'n cael effaith negyddol ar y gadwyn cyflenwi bwyd.*
>
> *Mae Lloegr a'r Alban yn gwneud offerynnau cyfatebol i ddileu'r amod mewnforio hwn. Heb gysondeb, byddai mewnforwyr mewn helbul. Er mwyn sicrhau gorfodadwyedd parhaus â gweddill y DU, a lleihau hyd y 'bwlch aer', bu angen anwybyddu'r confensiwn 21 diwrnod."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**12 Ionawr 2021**